## ATODLEN 4

Rheoliad 5

Amodau ychwanegol sy'n gymwys i gadw ieir dodwy mewn cewyll gwell

**1.** Rhaid i'r holl ieir dodwy nas cedwir mewn system ddi-gawell y cyfeirir ati yn Atodlen 2 neu mewn system cewyll y cyfeirir ati yn Atodlen 3 gael eu cadw mewn system cewyll gwell sy'n cydymffurfio â gofynion yr Atodlen hon.

**2.** Rhaid i ieir dodwy gael—

(a) o leiaf 750 $cm^2$ o arwynebedd cawell i bob iâr, y mae'n rhaid i 600 $cm^2$ ohono fod yn arwynebedd y gellir ei ddefnyddio; rhaid i uchder y cawell heblaw'r uchder uwchben yr arwynebedd y gellir ei ddefnyddio, fod yn 20 cm o leiaf ym mhob pwynt, a rhaid i'r cyfanswm arwynebedd lleiaf mewn unrhyw gawell fod yn 2000 cm2;

(b) mynediad i nyth;

(c) llaesodr fel bod modd pigo a chrafu;

(ch) clwydi priodol sy'n caniatáu o leiaf 15 cm i bob iâr.

**3.** Rhaid darparu cafn bwydo y gellir ei ddefnyddio heb gyfyngiad ac sydd â'i hyd o leiaf yn lluoswm 12 cm a nifer yr ieir yn y cawell.

**4.** Rhaid i bob cawell gael system yfed sy'n briodol ar gyfer maint y grwp; os darperir pigynnau dwr, rhaid cael o leiaf ddau bigyn dwr neu ddau gwpan o fewn cyrraedd i bob iâr.

**5.** Er mwyn hwyluso archwilio, gosod a diboblogi'r ieir rhaid cael ale o 90 cm o led o leiaf rhwng haenau o gewyll a rhaid caniatáu gofod o 35 cm o leiaf rhwng llawr yr adeilad a'r haen isaf o gewyll.

**6.** Rhaid gosod dyfeisiau addas ar gyfer cwtogi crafangau yn y cewyll.